

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Chwefror 2015



Penwythnos Glanllyn - Bu criw o ddisgyblion o'r ysgol yng Nglanllyn ddechrau mis Ionawr. Dyma gofnod un o ddisgyblion Blwyddyn 8 ar ôl dod adref.

Nos Sul, 11eg o Ionawr 2015

Wel, dw i 'di blino, mae gen i ddoman o ddillad budr yn fy llofft i a dw i ddim' di molchi ers tridia! Mae Mam yn taflu cwestiynau ata i ... "Ges di hwyl? Wnes ti gysgu? Sut oedd y bwyd?"... ond y cwbl dw i isio 'neud ydi mynd i gysgu o flaen y tân. Fel hyn mae hi ar ôl penwythnos gwerth chweil yng Nglanllyn.

Dechreuodd pethau ddim yn dda iawn nos Wener. Pan gyrhaeddodd y bws iard yr ysgol roedd yna griw o blant hŷn arni yn barod a phwy oedd yn eistedd yn eu canol ond chwaer fawr Sei. Syrthiodd ei wyneb. Doedd hi ddim 'di deud wrtho fo ei bod hi'n dod a doeddan ni ddim isio ei chwaer fawr o gwmpas! Ond roedd Glanllyn yn ddigon mawr i ni gyd a wnaeth hyn ddim tarfu ar ein hwyl.

Cawsom groeso mawr "Senior Members Glanllyn" meddai Geraint wrth i hogia' Eifionydd gyrraedd y gwrsyll. Mi oedd o'n ein cofio ni ers y flwyddyn diwetha' a dyna pam, mae'n siwr, na chafodd yr hogia' i gyd fynd i'r un ystafell y tro ma.

Mi fuon ni yn adeiladu rafft i fynd ar y llyn (roedd y dŵr yn oer iawn), dringo ar y rhaffau uchel, nofio, saethu bwa saeth, canwio, dringo ar y wal ddringo, gwyllo ffilm a gwneud ffrindiau hefo hogiau Dyffryn Conwy. Penwythnos grêt, ond mi fydd hi'n braf cael cysgu'n dawel yn fy ngwely'n hun heno.

Diolch yn fawr i Mr. Medwyn Williams am ein dioddef ni unwaith eto!

Huw Gwyn

Chwaraeon - Cynhaliwyd rasmus trawsgwlad Meirionnydd a Dwyfor yn Nolgellau a dyma'r disgyblion ddaeth i'r brig.

Bl. 8 a 9

Lleucu Lane 6ed
Elise Connor 10fed

Bl. 10 ac 11

Erin Roberts 10fed
Jac Anwyl 8fed

Nofio - Disgybl prysur ym myd nofio yw Medi Harris, Blwyddyn 7. Dyma gofnod Medi o'i champau nofio diweddar:

Rwyf newydd fod yn y gala rhanbarthol yn Llandudno. Yn y cystadleuaeth rhanbarthol rwyf yn cystadlu yn erbyn genod 13 – 14 oed. Llwyddais i ennill y rasmus canlynol:

1af 50m cefn

2il 200m rhydd

3ydd 100m rhydd

4ydd 100m pili pala

2il 200m cefn
3ydd 50m pili pala
1af 50m rhydd
2il 100m cefn
5ed 100m broga
4ydd 400m rhydd

Mae'r rasmus rhanbarthol yn cael eu cynnal am ddau benwythnos ac mae gen i 4 ras cyfnewid a mwy o rasmus unigol y penwythnos yma.

Bu tri o ddisgyblion yr Ysgol yn cystadlu yn Nofio'r Urdd yng Nghaerdydd.

Medi Harris 1af 100m cefn (Merched Bl.7 ac 8)
1af 100m rhydd (Merched Bl.7 ac 8)

Morgan Lukacs 10fed Pili Pala 100m (Bechgyn Bl. 7 ac 8)
10fed Cefn 100m (Bechgyn Bl. 7 ac 9)

Lora Lukacs 5ed Cymysg Unigol (Merched (bl. 9 a 10))

Mae Medi, Morgan a Lora wedi llwyddo i fynd i gystadlu yn Cystadleuaeth Cenedlaethol Cymru yn Abertawe Pasg 2015. **Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt.**



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Cari Davies ar gael ei dewis i gynrychioli tîm hoci dan 16oed Gogledd Cymru. Mae Cari hefyd yn ymarfer gyda carfan Cymru.



Cynhaliwyd Twrnament Pêldroed yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Roedd tîm o ferched a tîm o fechgyn o'r ysgol. Llwyddodd tîm 5 bob ochr yr ysgol i ddod yn ail yn y twrnament. Da iawn chi genod.

Treuliodd Cassia Pike a Shannon Dukes dridiau yn hyfforddi gyda charfan datblygu pêl droed merched dan 15oed Cymru yng Nghaerdydd. Roedd y genod wedi blino'n lân ar ôl yr hyfforddiant dwys. Daliwch ati genod!

Cynhaliwyd Twrnament hoci Meirion\ Dwyfor dan 14oed yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar Chwefror 9fed. Dyma'r calyniadau:

Eifionydd 3	Y Moelwyn 0	Eifionydd 0	Glan y Môr 0	Eifionydd 0	Botwnnog 0
Eifionydd 3	Y Berwyn 0	Eifionydd 3	Tywyn 0		

Yn dilyn eu llwyddiant, bydd y genod yn mynd ymlaen i gynrychioli Meirion \ Dwyfor yn Nhwrnament Eryri ddiwedd y mis. Pob hwyl i chi genod!

Codi arian - Pleser oedd cael croesawu Llio a Ffion Dudley i'r ysgol i dderbyn sic i Gronfa Llio. Fis Mawrth bydd y ddwy yn wynebu llawdriniaethau pan fydd Ffion yn rhoi rhodd o aren i'w chwaer, Llio. Roedd y merched yn hynod ddiolchgar i staff a disgyblion yr ysgol ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion codi arian.



Cynhaliwyd diwrnod gwisgo coch yn yr ysgol ar Chwefror 5^{ed} i godi ymwybyddiaeth o Glefyd y Galon. Braff oedd gweld y disgyblion mor lliwgar ac yn cefnogi achos mor deilwng. Llwyddwyd i godi £333.20 i'r elusen.

Cyflwynwyd sic o £300 i Ward Alaw a derbyniwyd llythyr o ddiolch gan gynrychiolydd o Apêl Cancr a Haemotoleg Alaw.



Ymwelodd 'Lori Ni' â'r ysgol yn ystod mis Ionawr. Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 ymweld â'r lori mewn grwpiau bychain. Elwodd y disgyblion o'r profiad o gael gwybodaeth am wahanol faterion sydd o ddiddordeb i bobl ifanc.



LLONGYFARCHIADAU - Dymuna Corff Llywodraethu Ysgol Eifionydd longyfarch Mrs.Alwen Watkin, Y Pennaeth ar ei phenodiad yn Bennaeth Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. O ganlyniad i hyn bydd y corff llywodraethu yn brysur yn ystod yr wythnosau nesaf yn cynllunio i sicrhau arweinyddiaeth ac addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion Ysgol Eifionydd.

Twrnament Pêl-droed Uwchradd - Urdd Gobaith Cymru - Talaith y Gogledd



Dyma tim merched Blwyddyn 7 + 8 Ysgol Eifionydd. Colli wnaethon nhw yn y gêm derfynol yn erbyn tîm Ysgol Ardudwy. Gem agos iawn oedd hi gyda Ardudwy yn curo 1-0. Roedd 12 o dimau ysgolion uwchradd yn cystadlu felly mae cyrraedd y gêm derfynol yn dangos pam mor gryf yw'r tim.

Roedd y gêm cyn derfynol hefyd yn gêm anodd iawn i dîm Eifionydd yn erbyn Ysgol Y Berwyn. Tîm da iawn yw Berwyn gyda unigolion da iawn sydd yn chwarae i glwb, ond curo wnaeth genod Eifionydd 2-1 gyda Lleucu Lane yn seren y gêm yn sgorio y ddwy gôl.